**ADRODDIAD I'R CABINET**
14 Gorffennaf 2015

**Aelod Cabinet:** **Cynghorydd Peredur Jenkins**

**Pwnc:** **Strategaeth Ffordd Gwynedd**

**Swyddog cyswllt:** **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Mabwysiadu'r Strategaeth.

---

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol.

---

**Cefndir**

1. Hoffwn gyflwyno Strategaeth Ffordd Gwynedd i'w mabwysiadu gan Gabinet y Cyngor. Wrth wneud hyn, mae'n werth nodi fod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar yr 11eg o Fehefin, 2015 wedi croesawu'r strategaeth drafft. Mae eu sylwadau i'w gweld fel atodiad i'r adroddiad hwn

2. Wrth gyflwyno'r Strategaeth, fe sylwch fod cerrig milltir i'r holl brosiectau sydd yn y rhaglen wedi'u cynnwys fel atodiadau. Dyma'r cerrig milltir y bydd y Paneli Cyflawni yn eu monitro i sicrhau'r cynnydd disgwyliedig ar bob prosiect.

3. Un o'r prosiectau mwyaf o fewn y rhaglen yw "Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith", newid diwylliant a defnyddio dull "systems" o fewn unedau gwasanaeth y Cyngor yn eu tro. Mae'r gyllideb bresennol sydd wedi ei chlustnodi ar gyfer y prosiect hwn yn golygu y gellir secondio 3 uwch swyddog ar sail dros dro i'w hyfforddi ac i gynnal adolygiadau. Byddai hynny yn golygu y gellir anelu i gwblhau oddeutu 22 adolygiad erbyn 2018/19. Ond pe gellir secondio 6 uwch swyddog ychwanegol (h.y. un o bob adran o'r Cyngor) yna gellid anelu i gwblhau 31 o adolygiadau erbyn diwedd 2019/dechrau 2020 (a chynyddu'r niferoedd y byddwn yn ei gyflawni ymhellach wedi hynny). Rhaid pwysleisio mae amcangyfrif yw'r ffigyrau hyn gan fod hi'n anodd darogan ar hyn o bryd union hyd bob adolygiad. Serch hynny, byddai cost ychwanegol o £150k o wneud hyn ond gellir anelu i gynyddu nifer adolygiadau o 43%.

4. Wrth drafod y mater yma yng nghyswllt y Cynllun Strategol, fe ofynnwyd i mi edrych i weld a oedd modd ariannu'r swm yma o reserfau penodol presennol. Byddaf yn adrodd ar hynny ar lafar yn y cyfarfod.

5. Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y Strategaeth ac ystyried gwerth y buddsoddiad ychwanegol er mwyn cynyddu nifer adolygiadau y gellir eu cwblhau dros y blynyddoedd nesaf.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
*Awdur yr Adroddiad*

**Y Swyddog Monitro:**
*Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb*

**Y Pennaeth Cyllid:**
*Nodaf fod cost 'cefn-lenwi' rhai o'r secondiadau sydd dan sylw wedi'i ariannu eisoes. Hefyd, wedi ystyried lefel rhai cronfeydd penodol a'r ymrwymiadau perthnasol, ac wedi trafod gyda'r Prif Weithredwr, cadarnhaf byddai modd ariannu'r gost 'cefn-lenwi' ychwanegol o £150,000 o gronfeydd sydd dan ei reolaeth ef, ynghyd â chronfeydd eraill sydd eisoes wedi'u neilltuo ar gyfer Ffordd Gwynedd.*

---

**Atodiadau**

1. **Cofnod Pwyllgor Craffu Corfforaethol 11 06 15**
2. **Strategaeth Drafft Ffordd Gwynedd**